61. The Tribunal considers that the principles set out in *Powell* at paragraph 14 and summarised at paragraph 26 above remain good law as to how it should approach its decision making in a s.103 case. The question of whether to open an investigation is a matter for the Commissioner’s discretion, to be exercised in accordance with the policy and objects of the Measure.
62. The Tribunal does not consider that *Powell* is to be read as mandating a rebuttable presumption to the effect that an investigation ought to be carried out unless there is good reason not to do so. Such a reading of *Powell* is inconsistent with the reference at paragraph 26 of the decision to the powers to investigate being used when **necessary** i.e. where the Commissioner determines that an investigation is needed in all the circumstances. Further, the Tribunal’s observation that in a **particular case**, the Commissioner would need to make clear what factors justified not pursuing an investigation could not be read as any general rule in this regard.
63. The Tribunal accepted that the Commissioner’s role in deciding whether to carry out an investigation is properly to be described as a “polycentric” one in which she is entrusted to weigh all the relevant considerations and to come to a decision. She is required by s.93 to consider, following a complaint, whether to carry out an investigation, but she is not required to decide that there ought to be an investigation. Although there are points of factual distinction between the role of the Commissioner and that of other bodies who are empowered to decide whether to investigate other organisations, the fact of that power is what makes the Commissioner’s decision polycentric in nature. The fact that her statutory role is to promote the Welsh language is not a relevant point of distinction: what matters is that s.71 of the Measure confers a discretion on her whether to open an investigation.

64. The Commissioner must however exercise her powers so as to promote the statutory purpose for which they are given. That is what s.3 of the Measure provides for, and it reflects the reasoning both in *Powell* itself and in *Corner House Research*. In that regard, as observed by the Tribunal in *Powell*, a relevant consideration is that an investigation is the only route by which the Commissioner can exercise her powers of compulsion. It is indeed, as Mr James accepted in argument, the only route by which a finding of non-compliance with Welsh Language Standards can be made. That is therefore a factor for the Commissioner to weigh in the balance in determining whether to conduct an investigation.

65. The Tribunal has therefore approached its decision on the basis that it is considering the Commissioner's decision not to open an investigation as polycentric in character.

Reliance on Ministerial statements

66. The Tribunal is bound by the decision of the High Court in *Driver* that a Ministerial statement is inadmissible unless the test in *Pepper v Hart* is satisfied. Although the Court of Appeal in *Driver* expressed doubt as to whether it might have taken a different approach, it did not do so, and, as such, the High Court's decision is binding unless the point were to be determined differently in another case.

67. The Tribunal considered the statements of the then First Minister Carwyn Jones as Minister with responsibility for the Welsh language referred to by the Applicant at paragraph 70 of his statement of case. These were statements to the effect that the Government's aim in passing the 2015 Regulations was to see Welsh become an automatic part of services in Wales, and that it wished to see bilingualism become normal for public bodies.

68. The Tribunal did not consider that the test in *Pepper v Hart* was met, as the Standards are not ambiguous or obscure. The Tribunal also did not consider that the statements were clear on the key question of how the Welsh Language Standards fall to be interpreted. Even if the Tribunal was wrong on that point, it also did not consider in any event that statements at such a high level of generality provided any assistance as to the proper construction of Standard 84.

69. By contrast, the Tribunal considered that the Explanatory Memorandum to the 2015 Regulations were of assistance to their interpretation and that is considered further below.

(2) The application

Ground 1: whether the Commissioner based her decision not to open an investigation on a conclusion that reactive provision of virtual training complied with Standard 84 and if so, whether this was an error

70. The Commissioner sought to argue that she had **not** based her decision on a conclusion that Standard 84 had been met by the provision of online classroom courses only and, as such, Ground 1 had to be rejected because she had not made the error attributed to her.

71. The Tribunal did not accept this argument for a number of reasons.

72. The Tribunal accepted Mr James's point that, at the stage of deciding whether to open an investigation, the Commissioner is not determining conclusively whether a Standard has been breached or not. It is the purpose of an investigation to determine whether there has been a breach of standards (s.73(2)) and if so, what action, if any, should be taken consequent upon that finding.

73. That, however, does not address the point that arises in this case. The Tribunal does not read the Applicant's complaint as resting on the proposition that the Commissioner had determined conclusively that there was no breach – that is not what his complaint says, and it would be wrong, in the Tribunal's view to read the use of 'conclusion' by a litigant in person as meaning a conclusive or a final determination. The Applicant's complaint is that the Commissioner had concluded – or more accurately in legal terms, had reached a prima facie conclusion – that there was no breach of Standard 84 by the Council in its reactive provision of virtual Welsh courses.

74. In this regard, the Tribunal concluded that the Commissioner's decision not to open an investigation did rest on a prima facie conclusion that the Council's reactive provision of online Welsh classroom courses complied with Standard 84. The officer's

recommendation to the Commissioner and accepted by her is that an investigation should not be opened, noting that the Council was advertising online classroom courses as a result of the complaint. It is implicit in that reasoning that the Commissioner regarded what the Council had done as sufficient to comply with Standard 84. Mr James fairly accepted in the course of argument that the Commissioner had formed this view.

75. The Commissioner's view is further made explicit in the letter sent by her to the Applicant in which she writes that she is satisfied in this case that the Council's provision of online Welsh classroom courses enabled it to conform with its obligations under the Welsh Language Standards.
76. Having concluded that the Commissioner had concluded on a prima facie basis that the Council had complied with its obligations under Standard 84, the Tribunal then went on to consider whether this disclosed an error of law.
77. The Tribunal had regard to the Explanatory Memorandum to the 2015 Regulations referred to by the Applicant in his statement of case, which states at paragraph 6 that their intention was to embody a principle of proactive provision of Welsh language services rather than a reactive provision. That statement is consistent with the meaning of "offer" which is to "present or proffer (something) for (someone) to accept or reject as desired". It is further consistent with the Code of Practice which provides at paragraph 4.20.8 that an "offer" includes making it known that an education course is available and **will** be delivered in Welsh.
78. The evidence before the Tribunal disclosed that, at the point in time at which the Commissioner made her decision, the information available to her was that the Council had run an online classroom course in Welsh in October 2024 and, it appears, would be running another in April 2025. The Tribunal did not consider that the Council had given the Commissioner any form of promise or undertaking in respect of other future courses – that is not what the letter of 16 September 2024 says. Thus, the Commissioner had no information that the Council had made or would be making proactive periodical arrangements to offer online Welsh classroom courses. The terms of the advice that she gave the Council are inconsistent with that being the factual position.

79. For all of these reasons, the Tribunal concluded that the Commissioner had erred in her prima facie conclusion that the Council had complied with Standard 84. Whilst the Tribunal agrees that a decision whether to open an investigation is a discretionary one for the Commissioner, it must be based on a correct interpretation of the relevant Standards which is a matter for the Tribunal. Ground 1 is therefore made out.

Ground 2: alleged misinterpretation of Standard 84 in relation to face to face training

80. The Tribunal also concluded that the Commissioner had erred in her prima facie conclusion that the Council's provision was adequate to comply with Standard 84 in the ongoing absence of any provision for face to face classroom courses in Welsh.

81. Mr James for the Commissioner argued that Standard 84 applied to the "offer" of a course and that the Applicant's argument wrongly equated the method of delivery with an offer. He argued that the complaint concerned the method of delivering the course and that fell outside the scope of Standard 84, though the method of delivery would be relevant to an assessment of whether there had been breach of Standard 84. He also contended in essence that acceptance of the Applicant's argument opened the floodgates to the argument that Welsh and English provision of courses had to be identical in every way which was a far-reaching conclusion that risked undermining the statutory Code of Practice.

82. The Tribunal disagreed. The obligation set out in Standard 84 is to offer a course in Welsh and English in accordance with the principle that Welsh should not be treated less favourably than English. The Council's offer is materially different between Welsh and English, and English speakers are treated more favourably because they are given a choice which is not made available to Welsh speakers. The Tribunal did not consider that there was a material distinction between offer and delivery. The offer must be a meaningful one, and that entails assessing whether what is available to a Welsh language speaker is not, in all material respects, less favourable than to an English language speaker.

83. The Tribunal also agreed with the Applicant that the Commissioner's acceptance that the delivery of the course was relevant to the question of breach was inconsistent with the argument that delivery was not an aspect of Standard 84 in the first instance. Put another way, there cannot be a breach of a standard when that obligation is not an aspect of that standard.
84. The issue of the degree of similarity required between Welsh and English language provision to comply with Standard 84 did not arise for the Tribunal's determination: that was not the case before it. On remission, it will be for the Commissioner to judge the adequacy of the Council's offer and whether that complies with Standard 84. The Tribunal's decision is limited – as it must be – to the conclusion that an offer which provides that classroom courses for Welsh speakers are only available online does not comply with Standard 84. Ground 2 is made out.

Ground 3: failure to consider the indicative timetable as a relevant consideration

85. The Tribunal agrees with the Applicant that the indicative timetable was a relevant consideration here, because the adequacy of the Council's offer had to be judged against how often there an individual might be looking to undertake the course. As set out at paragraph 4.20.14 of the Code of Practice, a body is expected to ensure that there are a sufficient number of Welsh language courses available which would ensure that nobody is at a disadvantage if they choose to attend a course in Welsh rather than a course in English.
86. The information available to the Commissioner at the time that she made her decision was that the Council had run a virtual course in Welsh in October 2024, three months after the Applicant's complaint, and would run another course in April 2025, some six months later. Against an indicative timetable of 8 weeks to complete training prior to sitting the licencing exam, an offer of courses at intervals which, on its face, could lead to an individual either having to defer their training to make of the Welsh language provision or having to undertake an English language course to be licenced more quickly was a matter that, in the Tribunal's judgment, was plainly relevant to take into account.

87. Although the information available to the Commissioner about the number of virtual courses on offer is recorded in the reasons form, there is no analysis of that factor as relevant to the decision to be made. In her statement of case, the Commissioner states that she did not regard this as a key or important point because the Council provided on-line materials through the medium of Welsh. That rationale, however, does not feature in the reasons form. The Tribunal considered that timing was a relevant factor to take into account, particularly as licencing is a necessary ingredient of the business activity of becoming a landlord, and it was not satisfied on the evidence that it had been considered. Ground 3 is made out.

(3) Disposal

Application of s.31(2A) Senior Courts Act 1981 to an application under s.103

88. The Tribunal considered this issue carefully, noting that it did not appear to have been raised previously in a s.103 case before the Tribunal.

89. The Tribunal agreed with the Commissioner that s.31(2A) of the Senior Courts Act 1981 is applicable to an application brought under s.103 of the Measure. The Tribunal is obliged by s.103(3) of the Measure to deal with such an application as if it were an application for judicial review. That is subject to s.104, but all that s.104 does is to restrict the Tribunal's powers to affirming or annulling the Commissioner's decision, which are narrower in scope than the range of powers available to the High Court in a judicial review application. There is no other 'saving' to the width of the provision made by s.103 that the law on judicial review is applicable. As the High Court would be obliged to consider s.31(2A) in a judicial review application, so must the Tribunal in a s.103 case. The fact that s.31(2A) postdates the Measure is not relevant – the effect of s.103 is to require the Tribunal to keep pace with the law on judicial review in its dealing with such cases.

Whether it is “highly likely” that the Commissioner would have made the same decision

90. The Tribunal has not been persuaded however, the burden being on the Commissioner, that it is “highly likely” that she would come to the same decision had the error not been made.
91. The Tribunal has concluded that the Commissioner erred in law in her interpretation of Standard 84 and that she failed to take account of a relevant consideration. Given the significance of those errors, the Tribunal cannot say with confidence what the result would have been without them.
92. The Tribunal accepts, as argued by Mr James, that the reasons form makes reference to relevant factors which the Commissioner is entitled to take in account in making a decision whether to open an investigation, namely the lack of benefit to Welsh speakers of an investigation; the Commissioner’s view that an investigation would yield no further information and that an investigation would be a disproportionate use of her resources.
93. The Tribunal however is not in a position to judge whether those factors would be highly likely in any event to lead the Commissioner not to open an investigation. The Tribunal has no witness statement from the Commissioner which explains why she formed the view that she did on these matters. Further, the Tribunal considered the Applicant’s points on proportionality – that an investigation into the Council in respect of the telephone complaint was open, and that there was resource being expended on advisory work in respect of the training complaint – were powerful ones. It will be a matter for the Commissioner to judge all these matters in the round when the complaint is remitted to her.

Betsan Criddle KC

Chair of the Tribunal Panel

20 October 2025

APPENDIX

(Key material considered by the Tribunal from the agreed bundle of documents or as referred to in the parties' written arguments)

- a) Applicant's Notice of Application dated 17 November 2024.
- b) Applicant's Statement of Case dated 12 May 2025.
- c) Commissioner's Statement of Case dated 24 June 2025.
- d) Applicant's Statement of Case in reply dated 16 July 2025.
- e) Letter from Cardiff Council to the Commissioner dated 16 September 2024 with enclosure.
- f) Minutes of meeting on 5 November 2024 and reasons form dated 5 November 2024.
- g) Commissioner's letter to the Applicant dated 12 November 2024.
- h) Applicant's skeleton argument dated 24 September 2025.
- i) Commissioner's undated skeleton argument.
- j) Code of Practice for the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015 dated 19 February 2020.
- k) Explanatory Memorandum to the Welsh Language Standards (No. 1) Regulations 2015 dated 24 February 2015.



TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

Achos Rhif: TyG/2024/02

Steffan Bryn (Ceisydd) v Comisiynydd y Gymraeg (Atebydd)

PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS

AELODAU'R PANEL

Betsan Criddle CB (Llywydd y Tribiwnlys)

H Eifion Jones

Glenda Jones

GWRANDAWIAD

3ydd o Hydref 2025 (gyda thrafodaethau'r panel ar y 6ed o Hydref 2025)

Canolfan Cyfiawnder Caernarfon

CYNYRCHIOLAETH

Cynrychiolodd yr Ymgeisydd ei hun.

Cynrychiolwyd yr Ymatebydd gan Owain Rhys James, Cwnsel, dan gyfarwyddyd Blake Morgan LLP.

DEUNYDD ALLWEDDOL A YSTYRIWYD GAN Y TRIBIWNLYS

Gweler Atodiad i'r dyfarniad hwn

NATUR Y CAIS

Cais o dan adran 103 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 am adolygiad o benderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn gan yr Ymgeisydd o fethiant awdurdod lleol i gydymffurfio â Safon y Gymraeg.

PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS

Mae'r Tribiwnlys

- a) yn diddymu penderfyniad y Comisiynydd ar y sail bod ei phenderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad i gŵyn yr Ymgeisydd:
 - i) yn seiliedig ar gamddehongliad o Safon 84; ac
 - ii) wedi methu ag ystyried ystyriaeth berthnasol, sef yr amserlen ddangosol ar gyfer trwyddedu fel landlord, wrth farnu a oedd cynnig y Cyngor o gyrsiau iaith Gymraeg yn ddigonol i gydymffurfio â Safon 84.
- b) yn anfon y gŵyn i'r Comisiynydd gyda chyfarwyddyd ei bod yn cael ei hailystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y dyfarniad hwn.

RHESYMAU

Cyflwyniad

1. Mae'r apêl hon yn ymwneud â phenderfyniad Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i beidio â chychwyn ymchwiliad i'r ddarpariaeth gan Gyngor Caerdydd ('y Cyngor') o gyrsiau dosbarth ar-lein i ganiatáu i unigolion sy'n dymuno cael eu

trwyddedu fel landlordiaid yng Nghymru ymgymryd â hyfforddiant. Mae hyn yn codi ystyriaeth a yw'r Comisiynydd wedi seilio ei phenderfyniad ar ddehongliad cywir o Safon 84 o Atodlen 1 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ('Safon 84'), ac a fethodd ag ystyried ystyriaeth berthnasol wrth wneud ei phenderfyniad, sef a oedd y cyrsiau a gynigiwyd gan y Cyngor yn ddigon aml o ystyried yr amserlen ddangosol 8 wythnos i ddarparu landlordiaid gwblhau'r cwrs hyfforddi cyn cael trwydded.

Canfyddiadau Ffeithiol

2. Nid oedd y cefndir ffeithiol yn ddadleuol rhwng y partïon.
3. Mae'r Cyngor yn gweithredu Rhentu Doeth Cymru ('RhDC'), y gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer trwyddedu landlordiaid yng Nghymru. Rhaid i landlordiaid gofrestru gyda RhDC os ydynt am osod eiddo yng Nghymru, ac os ydynt yn ymgymryd â gwaith gosod a rheoli, mae'n ofynnol iddynt gael trwydded ymhellach. I gael trwydded, rhaid i landlord gwblhau hyfforddiant perthnasol, a ddarperir gan RdDC neu ddarparwyr hyfforddiant awdurdodedig eraill. Y cyngor a roddir i landlordiaid gan RhDC yw bod disgwyl i'r broses drwyddedu gymeryd hyd at wyth wythnos ac y dylent ymgymryd â'r hyfforddiant cyn sefyll arholiad y drwydded.
4. Mae RhDC yn cynnig tri math o hyfforddiant gyda'r bwriad o gael trwydded. Y cyntaf yw hunan-astudio (darllen testun ar-lein yn amser yr ymgeisydd ei hun). Yr ail yw hyfforddiant ystafell ddsbarth ar-lein. Y trydydd yw hyfforddiant wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddsbarth. Mae RhDC yn cynnig y ddau fath cyntaf o hyfforddiant yn Gymraeg a Saesneg, er bod gwahaniaeth rhwng amlder hyfforddiant ar-lein Saesneg a Chymraeg. Mae'n cynnig y trydydd math o hyfforddiant yn Saesneg yn unig.
5. Ar y 4ydd o Orffennaf 2024, cyflwynodd yr Ymgeisydd, Mr Bryn, gŵyn i'r Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'i weithrediad o RhDC. Roedd y seiliau (naill ai'n wreiddiol neu drwy ddiwygiad diweddarach) yn cynnwys cwyn am (i) fethiant y Cyngor i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb a rhithwir cyfrwng Cymraeg i unigolion sy'n ceisio trwydded landlord; a (ii) gwasanaeth ffôn y Cyngor mewn perthynas â gwasanaeth RhDC.

6. Ar 16 Medi 2024, ysgrifennodd y Cyngor at y Comisiynydd mewn ymateb i gael gwybod am y gŵyn. Roedd y llythyr yn hysbysu'r Comisiynydd mai dim ond addysgu wyneb yn wyneb yn Saesneg y cynigiodd y Cyngor oherwydd bod yn rhaid i'w cyrsiau fod yn ariannol hyfyw. Dywedodd y Cyngor hefyd nad oedd yn trefnu cyrsiau Cymraeg fel mater o gwrs, ond y gallai cwsmeriaid gysylltu â nhw os byddai'n well ganddynt gyrsiau Cymraeg. Dywedodd y Cyngor yn olaf bod cwrs dosbarth ar-lein yn y Gymraeg wedi'i hysbysebu i'w gynnal ar yr 2ail o Hydref 2024.
7. Ar y 5ed o Dachwedd 2024, penderfynodd y Comisiynydd agor ymchwiliad i'r gŵyn am y gwasanaeth ffôn (mater (ii) uchod neu 'y gŵyn ffôn'). Mewn perthynas â'r gŵyn am hyfforddiant (mater (i) uchod neu 'y gŵyn hyfforddiant'), penderfynodd roi cyngor i'r Cyngor. Gwnaed y penderfyniad hwnnw mewn cyfarfod a gynhaliwyd i ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad o'r fath, ymhlith pethau eraill.
8. Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i wneud y penderfyniad hwnnw, lluniwyd Ffurflen Ymresymu gan swyddog achos yn nodi cyngor iddi ynghylch a ddylai agor ymchwiliad i'r gŵyn. Mae'n ddogfen strwythuredig sy'n nodi (a) ffeithiau'r achos; (b) sylwadau'r Cyngor; (c) asesiad o'r rhesymau dros gynnal asesiad ai peidio; (ch) casgliadau ac argymhelliad y swyddog i'r Comisiynydd ynghylch a ddylid cynnal ymchwiliad; a (d) penderfyniad y Comisiynydd. Mae penderfyniad y Comisiynydd ar ffurf y ddogfen yn cael ei llofnodi ganddi i nodi bod ei phenderfyniad wedi'i wneud ar sail derbyn argymhelliad y swyddog. Derbyniodd y Tribiwnlys y byddai'r argymhelliad a wnaed gan y swyddog ac ar sail y gwnaeth y Comisiynydd ei phenderfyniad hefyd yn cael ei lywio gan y dogfennau sylfaenol y cyfeirir atynt yn y Ffurflen Ymresymu.
9. Mae'r Ffurflen Ymresymu yn nodi casgliadau ac argymhelliad y swyddog yn y termau canlynol (y tanlinellu yn y gwreiddiol):

Argymhellir nad yw Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad. O ganlyniad i'r gŵyn hon, mae D bellach yn hyrwyddo cyrsiau dosbarth rhithwir yn y Gymraeg. Dylem eu hatgoffa i barhau i gynnig y cyrsiau hyn yn y Gymraeg.

Nid oes hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi ei hysbysebu, er bod cyrsiau ystafell ddosbarth wedi'u hysbysebu yn y Saesneg. Mae D yn dweud ar eu gwefan fod cyrsiau wyneb yn wyneb ar gael yn y Gymraeg ond bod angen cysylltu i drefnu hynny. Gallwn argymhell bod D yn hysbysebu cyrsiau ystafell

ddosbarth yn y Gymraeg neu gofyn iddynt eu hysbysiad am gyrsiau yn y Gymraeg yn fwy clir ar eu gwefan i geisio annog defnyddwyr i astudio'r cyrsiau yn Gymraeg. Dylem hefyd eu hannog i hysbysebu cyrsiau Cymraeg yn fwy rheolaidd. Ni fyddai cynnal ymchwiliad yn dod â mwy o fudd i ddefnyddwyr Cymraeg a byddai'n ddefnydd anghymesur o adnoddau'r Comisiynydd.

Nid ydi agor ymchwiliad yn mynd i ddod â mwy o wybodaeth i ni am y sefyllfa yma. Mae'n amlwg fod gan D y modd i gynnal y cyrsiau hyn gan eu bod wedi cadarnhau bod ganddyn nhw nawr siaradwr Cymraeg i gynnal hyfforddiant. Byddai'n ddefnydd anghymesur o adnoddau'r Comisiynydd i unrhyw fudd a fyddai'n deillio i'r Gymraeg a'i defnyddwyr i gynnal ymchwiliad llawn i pam nad yw'r cyrsiau hyn wedi bod yn cael eu hysbysebu. Gallwn ofyn i D hysbysebu cyrsiau ystafell ddosbarth yn y Gymraeg neu ofyn iddynt roi eu hysbysiad am gyrsiau yn y Gymraeg yn fwy clir ar eu gwefan i geisio annog defnyddwyr i astudio'r cyrsiau yn Gymraeg.

Rhaid argymhell hefyd bod gan D weithdrefn mewn lle ble, os oes defnyddiwr yn derbyn y cynnig am gwrs Cymraeg (drwy gysylltu drwy e-bost fel y mae'r nodyn ar y wefan yn annog a fel y gwnaeth yr achwynydd) eu bod yn gweithredu ar y cynnig hwnnw drwy ddarparu'r cwrs yn Gymraeg neu gymryd camau i sicrhau bod hynny'n digwydd.

10. Ar yr adeg y gwnaethpwyd y penderfyniad hwn, roedd y Cyngor wedi hysbysu'r Comisiynydd y byddai cwrs dosbarth Cymraeg ar-lein yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2024. Mae'n ymddangos bod y Comisiynydd hefyd yn ymwybodol bod cwrs arall wedi'i drefnu ar gyfer Ebrill 2025, er nad oedd yn glir ar y dystiolaeth gerbron y Tribiwnlys sut y daeth y wybodaeth honno i'w meddiant. Mae'r ffeithiau hyn yn cael eu cofnodi yn yr asesiad o'r rhesymau dros gynnal asesiad ai peidio. Nid oedd unrhyw ymrwymiad gan y Cyngor yn y llythyr dyddiedig yr 16eg o Fedi 2024 i drefnu unrhyw gwrs heblaw'r un ym mis Hydref 2024.

11. Cyfathrebwyd penderfyniad y Comisiynydd i'r Ymgeisydd drwy lythyr dyddiedig y 12fed o Dachwedd 2024. Nid yw'r Comisiynydd yn awgrymu bod unrhyw wahaniaeth materol rhwng y penderfyniad a wnaed a'r penderfyniad a gyfathrebwyd i'r Ymgeisydd. Mae llythyr y Comisiynydd yn cofnodi bod ymateb y Cyngor i'r gŵyn hyfforddi fel a ganlyn:

O ganlyniad i'ch cwyn eu bod bellach wedi hysbysebu cwrs rhithiol ystafell ddosbarth i landlordiaid newydd yn y Gymraeg ym mis Hydref eleni ac mae cwrs yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2025. Mae ganddynt nawr aelod o staff

sydd yn gallu cynnal cyrsiau Cymraeg, ac y bydden nhw's cynnal cyrsiau pellach yn y Gymraeg yn ôl y galw.

12. Mae ei rhesymau dros beidio ag agor ymchwiliad i'r gŵyn hyfforddi fel y'i rhoddwyd i'r Ymgeisydd fel a ganlyn:

Rydym wedi penderfynu na fyddwn yn cynnal ymchwiliad i elfennau eraill y gŵyn.

Diben cynnal ymchwiliad yw dod i farn ar y cwestiwn a fu methiant i gydymffurfio â safon, a'n galluogi i orfodi sefydliad i newid ei ymddygiad os oes angen. Yn yr achos yma, mae'r Cyngor wedi cydnabod nad oedden nhw wedi bod yn darparu hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth yn y Gymraeg ac mae wedi cymryd camau i hysbysebu cyrsiau ystafell ddosbarth rhithiol ers derbyn eich cwyn. Rydym yn fodlon, yn yr achos yma, fod cynnig cyrsiau ystafell ddosbarth rhithiol yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i ddyletswydd yn unol â gofynion ysafonau...

Nid oes angen cymryd camau felly i orfodi i'r sefydliad i newid ei ymddygiad gan ei fod eisoes wedi cydnabod ei fethiant ac wedi neu yn mynd i gymryd camau o'i wirfodd i ddatrys y sefyllfa. Nid ydym o'r farn y byddai cynnal ymchwiliad yn dod â budd ychwanegol i ddefnyddwyr yr iaith yn ychwanegol i'r hyn mae'r Cyngor yn barod wedi ei ymrwymo i'w gyflawni. Byddai cynnal ymchwiliad dan yr amgylchiadau hyn felly yn ddefnydd anghymesur o'n hadnoddau.

13. Wedi hynny, rhoddodd y Comisiynydd wybod i'r Ymgeisydd y byddai'r Cyngor yn cael cyngor yn unol â'i phwerau o dan adran 4(j) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 y dylai fod ganddo drefniant parhaol y dylid cynnig cyrsiau dosbarth Cymraeg ar-lein ar gyfer landlordiaid newydd o bryd i'w gilydd fel mater o gwrs.

Y cais i'r Tribiwnlys

14. Ar yr 17eg o Dachwedd 2024, cyflwynodd yr Ymgeisydd ei gais i'r Tribiwnlys hwn o dan adran 103 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur'), gan gwyno am fethiant y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad i'r gŵyn hyfforddiant. Rhoddwyd y seiliau fel a ganlyn:

- 14.1 Nid oedd addewid y Cyngor i gynnal cwrs rhithwir ym mis Ebrill 2025 yn ddigonol yng nghyd-destun cwyn ym mis Gorffennaf 2024 ac o ystyried y

cyfnod o 8 wythnos i landlord gwblhau hyfforddiant cyn sefyll yr arholiad trwyddedu.

- 14.2 Nid oedd yn rhesymol i'r Comisiynydd ddod i'r casgliad bod cyfwerthedd triniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg pan gynigir cyrsiau Saesneg wyneb yn wyneb ac ar-lein ac roedd y cwrs Cymraeg arfaethedig ar-lein yn unig.
- 14.3 Roedd y Comisiynydd wedi methu â delio â chwmpas llawn ei gŵyn am y Cyngor. Roedd hi wedi ystyried y gŵyn am hyfforddiant sylfaenol i landlordiaid yn unig ac nid oedd wedi ystyried y ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â chysiau arbenigol a chysiau pellach. Roedd y Comisiynydd hefyd wedi methu ag ymdrin â'i gŵyn am y wefan a'r ffaith ei bod yn angenrheidiol mewn rhai achosion ffonio neu e-bostio i archebu cwrs Cymraeg pan gellid archebu cwrs Saesneg ar-lein ac nad oedd yn glir, yn achos cyrsiau a gynigir yn y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg, sef iaith y cwrs oedd yn cael ei archebu.
- 14.4 Nid oedd ymateb y Comisiynydd yn awgrymu bod ystyriaeth wedi'i roi i a oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau 84 ac 86 i asesu'r angen i gwrs addysgol gael ei ddarparu yn Gymraeg.
15. Ar y 10fed o Ragfyr 2024, daeth y cais gerbron y Tribiwnlys ar bapur pan wrthodwyd caniatâd ar y sail bod penderfyniad y Comisiynydd i roi cyngor yn argymhell bod y Cyngor wedi rhoi proses barhaol ar waith y dylid hysbysebu hyfforddiant ystafell ddosbarth ar-lein ar gyfer landlordiaid newydd o bryd i'w gilydd fel mater o gwrs o fewn ei disgresiwn yn y mater hwn. Gwrthododd y Tribiwnlys y ddadl bod y penderfyniad yn anghywir ac yn ddiffygiol oherwydd ei fod yn rhy gyfyngedig, ar sail y rhesymau a roddwyd gan y Comisiynydd yn ei llythyr canlyniad dyddiedig y 12fed o Dachwedd 2024.
16. Drwy lythyr heb ddyddiad, ond a dderbyniwyd gan y Tribiwnlys ar y 24ain o Ragfyr 2024, arferodd yr Ymgeisydd ei hawl o dan reol 16(8) o Reolau Tribiwnlys yr Iaith Gymraeg ('y Rheolau') 2015 i fynnu bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried gan banel tribiwnlys mewn gwrandawriad.

17. Ar yr 17eg o Fawrth 2025, cyflwynodd yr Ymgeisydd gyflwyniadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys i'w hystyried yn y gwrandawriad o'i gais ailystyried. Yn y cyflwyniadau hynny, crynhowyd seiliau'r gŵyn fel a ganlyn:

17.1 **Sail 1:** Roedd yn gamgymeriad cyfreithiol i'r Comisiynydd (i) seilio ei phenderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad ar addewid y Cyngor i gynnal cyrsiau dosbarth Cymraeg ar-lein yn unol â'r galw; a (ii) awgrymu i'r Cyngor, drwy ei chyngor, fod ganddo ddisgresiwn i beidio â chynnig cyrsiau Cymraeg o dan yr amgylchiadau.

17.2 **Sail 2:** Roedd y Comisiynydd wedi camddechongli Safon 84 wrth ddod i'r casgliad bod y ddarpariaeth ar-lein yn unig o gyrsiau dosbarth Cymraeg yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i rwymedigaethau, pan gynigiwyd cyrsiau Saesneg wyneb yn wyneb ac ar-lein ac i ddibynnu ar y camddechongliad hwnnw fel rhan o'i chyfiawnhad dros beidio ag agor ymchwiliad.

17.3 **Sail 3:** Ymhellach ac fel arall, bod penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag agor ymchwiliad yn cynnwys dehongliad afresymol o Safon 84 a heb ystyried yr egwyddorion cyffredinol a'r darpariaethau penodol a wnaed gan Reoliadau Cod Ymarfer ar gyfer Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

17.4 **Sail 4:** Roedd y Comisiynydd wedi methu â dod i gasgliad rhesymol, sy'n gyson â pholisi ac amcanion y Mesur ynghylch gwir effaith a chanlyniadau ei phenderfyniad i roi cyngor yn hytrach na chynnal ymchwiliad ar ddefnyddwyr y Gymraeg.

18. Cynhaliwyd gwrandawriad caniatâd llafar drwy MS Teams ar yr 21ain o Fawrth 2025. Yn y gwrandawriad hwnnw, gwnaeth yr Ymgeisydd gais am ganiatâd i ddiwygio ei gais yn unol â'r seiliau a nodir yn ei gyflwyniadau ysgrifenedig. Caniatodd y Tribiwnlys y cais hwn ac wedi hynny rhoddodd ganiatâd i'r Ymgeisydd fynd ar drywydd Seiliau (1)(i), (2) a (4) fel y nodir uchod. Cafodd y cais ei drin fel un a dderbyniwyd gan y Tribiwnlys ar y 14eg o Ebrill 2025.

19. Ar y 13eg o Ebrill 2025, rhoddodd y Tribiwnlys gyfarwyddiadau ar gyfer cyfnewid datganiadau achos. Bu i'r Ymgeisydd ffeilio a chyfnewid ei ddatganiad achos ar yr 12eg o Fai 2025, pan wnaeth gais pellach i ddiwygio seiliau ei hawliad. Ceisiodd yr Ymgeisydd:

19.1 Ychwanegu at Sail 1 gŵyn ynghylch a oedd RhDC wedi cydymffurfio â Safon 84 mewn amgylchiadau lle ei bolisi yw canslo cwrs os nad oes digon o fynychwyr.

19.2 Ychwanegu Sail 5 bod y Comisiynydd, wrth benderfynu peidio ag ymchwilio i'w gŵyn (i) wedi camgymeru wrth ddod i'r casgliad na allai gael rhagor o wybodaeth drwy ymchwiliad oherwydd roedd gwybodaeth yn gwrthdaro yn ei meddiant ar yr adeg y gwnaeth y penderfyniad hwnnw; a (ii) wedi gwneud camgymeriad wrth drin cael gwybodaeth fel yr unig faen prawf sy'n berthnasol i'w phenderfyniad.

19.3 Diwygio Sail 4 yn ffeithiol i gwyno bod y Comisiynydd wedi methu ag ystyried ystyriaethau perthnasol wrth wneud ei phenderfyniad i beidio â chynnig ymchwiliad, sef bod y cyrsiau Cymraeg ar-lein yn cael eu cynnig ym mis Hydref 2024 ac Ebrill 2025 ac nad oedd y ddarpariaeth honno'n ddigon rheolaidd o'i gymharu â'r ddarpariaeth Saesneg. Roedd hynny'n newid o'i ddadl fel y'i cyflwynwyd yn y gwrandawriad caniatâd llafar ar yr 21ain o Fawrth 2025, pan honnodd nad oedd unrhyw gwrs wedi'i gynnig tan Ebrill 2025.

20. Trwy benderfyniad a anfonwyd at y partïon ar y 18fed o Fai 2025, gwrthododd y Tribiwnlys y cais i ddiwygio Sail 1 ac ychwanegu Sail 5 a chaniatáu'r cais i ddiwygio Sail 4.

Y materion i'r Tribiwnlys

21. Ar ddechrau'r gwrandawriad, cadarnhaodd y Tribiwnlys seiliau cŵyn yr Ymgeisydd fel a ganlyn:

- 21.1 **Sail 1:** Roedd y Comisiynydd wedi gwneud camgymeriad o gyfraith wrth seilio ei phenderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad ar addewid y Cyngor i gynnal cyrsiau dosbarth Cymraeg ar-lein yn unol â'r galw.
- 21.2 **Sail 2:** Roedd y Comisiynydd wedi camddehongli Safon 84 wrth ddod i'r casgliad bod y ddarpariaeth ar-lein yn unig o gyrsiau dosbarth Cymraeg yn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'i rwymedigaethau, pan gynigiwyd cyrsiau Saesneg wyneb yn wyneb ac ar-lein, ac i ddibynnu ar y camddehongliad hwnnw fel rhan o'i chyfiawnhad dros beidio ag agor ymchwiliad.
- 21.3 **Sail 4:** Roedd y Comisiynydd wedi methu â dod i gasgliad rhesymol, sy'n gyson â pholisi ac amcanion y Mesur, ynghylch gwir effaith a chanlyniadau ei phenderfyniad i roi cyngor yn hytrach na chynnal ymchwiliad i ddefnyddwyr y Gymraeg. Dywedwyd yn benodol bod hyn wedi bod yn fethiant i ystyried ystyriaeth berthnasol, sef yr amserlen ddangosol 8 wythnos i landlordiaid gwblhau'r cwrs hyfforddi cyn sefyll yr arholiad trwyddedu, a digonolrwydd y cyrsiau a gynigiwyd ym mis Hydref 2024 ac Ebrill 2025 yn erbyn y cefndir hwnnw.
22. O ganlyniad i ddadleuon y partïon yn eu datganiadau o achos, eu dadleuon sgerbwd, ac yn eu cyflwyniadau llafar, mae'r materion canlynol yn codi i'w penderfynu gan y Tribiwnlys:
- 22.1 Sut ddylai'r Tribiwnlys ymdrin â chais o dan adran 103 o'r Mesur? A oes rhagdybiaeth y dylai'r Comisiynydd agor ymchwiliad os yw'n derbyn cwyn ddilys neu a yw'r penderfyniad a ddylid gwneud hynny yn amlochrog?
- 22.2 A all ac a ddylai'r Tribiwnlys edrych ar ddatganiadau'r Gweinidog ynglŷn â chwmpas arfaethedig Safonau'r Gymraeg wrth ddod i gasgliad ynghylch a sut i ddehongli Safon 84?
- 22.3 A wnaeth y Comisiynydd seilio ei phenderfyniad i beidio ag agor ymchwiliad ar gasgliad bod y ddarpariaeth adweithiol o gyrsiau dosbarth Cymraeg ar-lein

yn cydymffurfio â Safon 84? Os gwnaeth, a oedd hyn yn gamgymeriad y gyfraith?

- 22.4 A yw'r rhwymedigaeth i "gynnig cwrs" at ddibenion Safon 84 yn cwmpasu'r ffordd y darperir y cwrs hwnnw? Os felly, a wnaeth y Comisiynydd gamddehongli Safon 84 pan benderfynodd fod darparu cyrsiau dosbarth Cymraeg ar-lein yn unig yn cydymffurfio â'r safon?
- 22.5 A wnaeth y Comisiynydd fethu ag ystyried ystyriaeth berthnasol – amllder hyfforddiant rhithwir yng nghyd-destun yr amserlen ddangosol ar gyfer cael trwydded – wrth benderfynu peidio â chynnal ymchwiliad?
- 22.6 Pe bai'r Tribiwnlys yn dod i'r casgliad bod penderfyniad y Comisiynydd yn ddiffygiol, a yw adran 31(2A) Deddf Uwch Lysoedd 1981 yn gymwys i gais o dan adran 103 o'r Mesur?
- 22.7 Os yw adran 31(2A) yn berthnasol, a yw'r Comisiynydd wedi dangos, gan fod y baich arni, ei bod yn 'hynod debygol' y byddai'n dod i'r un penderfyniad pe na bai'r camgymeriad wedi'i wneud?

CYFRAITH BERTHNASOL

Awdurdodaeth y Tribiwnlys

23. Mae adran 103 o'r Mesur, fel sy'n berthnasol yma, yn darparu y gall unigolyn wneud cais i'r Tribiwnlys i adolygu penderfyniad y Comisiynydd i beidio ag agor ymchwiliad i gŵyn ganddynt bod corff cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â safon.

24. Mae adran 103(3) yn nodi:

Rhaid i'r Tribiwnlys, yn ddarostyngedig i adran 104, ymdrin â chais am adolygiad o'r fath fel pe bai'n gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

25. Mae adran 104 yn darparu:

- (1) Pan wneir cais o dan adran 103, caiff y Tribiwnlys –
 - (a) cadarnhau penderfyniad y Comisiynydd, neu
 - (b) diddymu penderfyniad y Comisiynydd.
- (2) Os yw'r Tribiwnlys yn diddymu penderfyniad y Comisiynydd, rhaid i'r Tribiwnlys anfon yr achos yn ôl at y Comisiynydd gyda chyfarwyddyd ar gyfer ei ailystyried.

Y dull o ymdrin â chwyn o dan Adran 103

26. Yn *Powell v Comisiynydd y Gymraeg (Achos Rhif TyG/WLT/16/8)* ym mharagraff 14, nododd y Tribiwnlys yr egwyddorion sy'n berthnasol i ystyried cais o dan adran 103 o'r Mesur. Dyma:

- 26.1 Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd ddangos bod y Comisiynydd wedi methu â gweithredu o fewn ei phwerau.
- 26.2 Mae gan y Comisiynydd ddisgresiwn, o dan adran 93 o'r Mesur, a ddylid cynnal ymchwiliad i gwyn ddilys ai peidio.
- 26.3 Rhaid arfer y disgresiwn hwnnw mewn ffordd sy'n gyson â pholisi ac amcanion y Mesur yn gyffredinol.
- 26.4 Wrth benderfynu sut i arfer ei disgresiwn, rhaid i'r Comisiynydd ystyried ystyriaethau perthnasol a pheidio â chymryd i ystyriaeth rhai amherthnasol; beth sy'n berthnasol a'r hyn sy'n amherthnasol i'w farnu drwy gyfeirio at bolisiau a gwrthrychau'r Mesur.
